

## Tasg 1

# Taith mewn peiriant amser

Beth fydd eich oedran ym mis Mehefin 2026?

Ceisiwch ddychmygu sut fywyd fydd gennych chi mewn deng mlynedd, gan gofio y bydd Prydain a Chymru wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd erbyn hynny.

Ysgrifennwch ddyddiadur am un diwrnod o'ch bywyd ar Fehefin 23, 2026. Dylai fod rhwng 100 a 300 o eiriau.

Ystyriwch y canlynol wrth ysgrifennu:

- Ydych chi'n gweithio? Os felly pa swydd sydd gennych chi?
- Os ydych yn ddi-waith, pam? Sut mae bywyd o ddydd i ddydd?
- Ydych chi'n astudio mewn prifysgol?
- Ydych chi'n briod?
- Ble rydych chi'n byw?
- Ydych chi'n dal i fod ym Mhrydain?

Sut mae hyn oll yn gwneud i chi deimlo?